

Dewis Ysgol ar gyfer plentyn sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

Ysgol Gynradd



Cyn ymweld â'r ysgol:

- Edrychwch ar adroddiad Estyn ar yr ysgol ar-lein
- Lluniwch restr wirio o'r hyn sy'n bwysig i chi a'ch plentyn
- Efallai y byddai modd i chi fynd â rhywun gyda chi i gael barn arall
- Ewch â'r wybodaeth berthnasol sy'n ymwneud ag anghenion/gofynion addysgol eich plentyn (e.e. datganiad, cyngor iechyd a chynlluniau addysg unigol) gyda chi
- Ystyriwch a fyddai hi'n briodol i chi fynd am daith gerdded o amgylch yr ysgol. Yn ddelfrydol, caiff hyn ei wneud yn ystod oriau ysgol
- Penderfynwch a ddylai eich plentyn fynd gyda chi ar eich ymweliad cyntaf. Bydd modd i'r ysgol eich helpu chi gyda'r penderfyniad yma
- Mae'n bwysig i chi fod yn agored a gwneud nodyn o unrhyw ymholiadau/gwestiynau y bydd modd i chi eu gofyn yn yr ysgol neu drwy gysylltu â'r ysgol ar ôl yr ymweliad.

Sut ydw i'n dewis ysgol?

Dod o hyd i ysgol a fydd yn diwallu anghenion eich plentyn:

- Cysylltwch â'r Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant i gael gwybodaeth am y ddarpariaeth o ran Anghenion Addysgol Arbennig yn Rhondda Cynon Taf. Bydd modd iddyn nhw rannu manylion yr ysgolion/Swyddogion Cynnal Dysgu priodol â chi
- Dylech chi ymweld ag o leiaf dwy ysgol fel bod modd i chi eu cymharu
- Ceisiwch fod yn agored nes y byddwch chi wedi ystyried yr holl bosibiliadau ac wedi siarad â'r holl weithwyr proffesiynol perthnasol

- Gofynnwch a oes yw'r holl adnoddau sydd eu hangen ar eich plentyn ar gael yn yr ysgol eisoes, neu a oes modd addasu'r ysgol er mwyn darparu'r adnoddau yma?

Pethau eraill i'w hystyried:

- A ydych chi'n teimlo'n gyfforddus yn yr ysgol?
- A yw'r plant yn edrych yn gyfforddus ac yn hapus?
- A fyddai modd i'r ysgol ddiwallu unrhyw anghenion crefyddol penodol sydd gyda chi neu'ch plentyn?
- A yw'r ysgol yn dathlu crefyddau a diwyllianau gwahanol?
- A yw'r ysgol yn ymddangos fel ei bod hi o dan reolaeth?
- A yw arddangosfeydd yr ysgol wedi'u diweddarau ac yn ddiddorol? Ydyn nhw'n arddangos gwaith y disgyblion?
- A yw'r staff yn gyfeillgar ac yn dangos diddordeb yn y plant sydd yn eu gofal/dosbarth?
- A yw'r holl gyfleusterau yn addas ar gyfer eich plentyn? (ystafell synhwyraidd, pwll nofio, maes chwarae, ffreutur, ystafelloedd dosbarth)

Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant
Rhondda Cynon Taf
Tŷ Trevithick
Abercynon
Aberpennar
CF45 4UQ
Ffôn / Tel: 01443 744333

Cwestiynau o ran Polisi:

- Beth yw polisi'r ysgol o ran: Ymddygiad, cyfle cyfartal a chynhwysiant, rhoi meddyginiaeth, gofal bugeiliol, Anghenion Addysgol Arbennig - Gofynnwch am gopi o unrhyw bolisi yr hoffech chi ei weld.
- Sut mae'r ysgol yn trefnu cymorth ychwanegol? A gaiff hyn ei ddarparu mewn ystafell ddosbarth, fesul unigolyn neu mewn grwpiau bach?
- Sut mae'r ysgol yn cynnwys yr holl ddisgyblion yn y gweithgareddau a gaiff eu trefnu, e.e. gwibdeithiau?
- Sut mae'r Cydlynedd Anghenion Dysgu Ychwanegol/Cydlynedd Anghenion Addysgol Arbennig yn cyfathrebu â'r athrawon?



Rhestr Wirio Enghreifftiol:

- Sut caiff y ddarpariaeth o ran Anghenion Dysgu Ychwanegol ei threfnu yn yr ysgol?
- A yw'r ysgol wedi gweithio gyda phlant sydd â'r un anghenion â'ch plentyn, neu anghenion tebyg? Sut gwnaeth y staff weithio gyda'r plentyn yma? Sut gwnaethon nhw oresgyn unrhyw rwystrau?
- Pa fath o gymorth a fyddai eich plentyn chi'n ei gael?
- Beth yw polisi ymddygiad yr ysgol? Sut y caiff hyn ei roi ar waith mewn perthynas â phlant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol?
- Sut mae'r ysgol yn cynnwys rhieni ym mywyd yr ysgol? Sut mae'r staff yn cyfathrebu â nhw?
- Sut mae'r ysgol yn ymdrin â bwlio?
- A oes gan yr ysgol glybiau ar ôl ysgol? Sut y byddai modd i'r grwpiau yma groesawu plant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol?
- Cludiant i'r ysgol?
- Sut mae'r Cydlynedd Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cyfathrebu â'r athrawon?



Efallai y bydd rhai o'r cwestiynau yma yn ddefnyddiol i chi wrth ymweld ag ysgol newydd eich plentyn. Mae'n bosibl y bydd dim modd i chi ofyn yr holl gwestiynau yma - darllenwch nhw'n ofalus a dewiswch pa rai sydd bwysicaf i chi. Cwestiynau posibl:

Strwythur yr ysgol:

- Sut caiff yr ysgol ei threfnu? Oed? Gallu? Grŵp pwnc? Sut y mae modd i hyn newid wrth i'm plentyn i fynd yn hŷn?
- Sawl plentyn a fyddai yn nosbarth fy mhlentyn?
- Faint o'r gloch mae'r ysgol yn dechrau ac yn gorffen? Yw e ar yr un adeg bob dydd?
- Pa gymorth/goruchwyliaeth sydd ar gael yn ystod amser egwyl ac amser cinio?
- A oes system gyfeillion (buddy) yn yr ysgol?
- Sut mae'r ysgol yn asesu gwaith ac yn monitro cynnydd?
- Pa mor aml y caiff adroddiadau ysgrifenedig eu hanfon gartref?
- Pa mor rheolaidd y byddai cynnydd fy mhlentyn yn cael ei adolygu? Pwy a fyddai'n rhan o'r broses? A fyddwn i'n rhan o'r broses?
- A oes gan yr ysgol ystafell arbennig/man tawel ar gyfer disgyblion sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig/Anghenion Dysgu Ychwanegol? A fydd aelod o staff ar gael bob amser?
- A oes gan yr Adran Cynnal Dysgu gyfleusterau TGCh da?
- Sut caiff y gwaith ei addasu ar gyfer disgyblion unigol? A yw'r ysgol yn sicrhau bod hyn yn digwydd?
- A oes clwb brecwast ar gael? A gaiff hwn ei gynnal bob dydd?
- A oes gan yr ysgol unrhyw glybiau ar ôl ysgol? Sut y byddai modd i'r grwpiau yma groesawu plentyn/person ifanc sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol?
- Cludiant i'r ysgol?
- Pa wasanaethau/gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â'r ysgol?
- Lles y Plentyn/Person Ifanc
- Sut y caiff athrawon pwnc wybod am anghenion fy mhlentyn? (os yw hynny'n briodol)
- Sut bydd yr ysgol yn helpu'r plant eraill i ddeall anghenion arbennig fy mhlentyn?
- Sut y byddai staff yr ysgol yn dod i adnabod fy mhlentyn cyn iddo e/iddi hi ddechrau yno?
- Sut y byddai fy mhlentyn yn dod i adnabod yr ysgol, yn enwedig ar y dechrau?
- Cynnwys Rhieni:
- Sut mae'r ysgol yn cynnwys rhieni ym mywyd yr ysgol? Sut mae'r staff yn cyfathrebu â nhw?
- Sut mae'r ysgol yn ymdrin â bwlio?
- A yw'r ysgol wedi gweithio gyda phlant sydd â'r un anghenion â'ch plentyn, neu anghenion tebyg? Sut gwnaeth y staff weithio gyda'r plentyn yma? Sut gwnaethon nhw oresgyn unrhyw rwystrau?
- Gyda phwy ddylwn i siarad os oes gen i bryderon?

